OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1349 (Cy.135)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006

Wedi'u gwneud - -	*16 Mai 2006*
Yn dod i rym - -	*31 Mai 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin Y Gymuned Ewropeaidd.

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn–

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 31 Mai 2006.

Diwygiadau i Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005

2.—(1) Diwygir Reoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005(**3**)yn unol â pharagraff (2).

(2) Ar ôl paragraff 20 yn Rhan VIII o Atodlen 1 mewnosoder–

> "**21.** Penderfyniad y Comisiwn 2006/7/EC, sy'n ymwneud â mesurau gwarchod penodol mewn perthynas â mewnforio plu o drydydd gwledydd penodol (OJ Rhif L5, 10.01.2006, t.17) fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2006/183/EC (OJ Rhif L65, 7.3.2006, t.49)."

(**1**) O.S. 2005/2766.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2005/666 (Cy.56).